

Annwyl Gwsmer



## Cau Cangen Nas Cynlluniwyd

**Swyddfa Bost Porth Tywyn  
34 Heol yr Orsaf, Porth Tywyn, SA16 0LP**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd y gangen uchod, yn anffodus, yn cau ddydd Llun 20 Mai 2024 am 17:30 – yn dilyn ymddiswyddiad y postfeistr ac am na fydd yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost.

Mae darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol yn bwysig i ni, a byddwn yn gweithio'n galed o hyd i adfer gwasanaethau yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Hoffwn eich sicrhau ein bod wrthi'n ystyried sut y gallwn adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig fod unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Mae gennym ymgeisydd, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf drwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn. Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybodaeth i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylostod a allai ddigwydd oherwydd y cau. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

*Fiona Shanahan*

**Fiona Shanahan  
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.

Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.

Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.

Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.

Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

[postoffice.co.uk](http://postoffice.co.uk)

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk  
postofficeviews.co.uk  
FREEPOST Your Comments

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

#### Canghennau eraill

**Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

---

**Swyddfa Bost Symudol Pen-bre**

Maes Parcio Eglwys Illtud Sant  
Sgwâr Randell  
Pen-bre  
Porth Tywyn  
SA16 0AQ

**Gwasanaethau**

Yn cynnig dewis o wasanaethau, ond ac eithrio dewis eang o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Yr oriau agor**

Dydd Mercher	11:30 – 12:30
--------------	---------------

**Mynediad**

Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anableddau.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Symudol hwn tua 1.5 milltir o gangen Porth Tywyn, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio ym maes parcio Eglwys Illtud Sant. Mae modd parcio hefyd wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Porth Tywyn a'r gwasanaeth Symudol hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 130 metr i ffwrdd.

---

**Swyddfa Bost Heol Pen-bre**

60 Heol Pen-bre  
Llanelli  
SA15 3BP

**Gwasanaethau**

Yn cynnig dewis o wasanaethau, ond ac eithrio dewis eang o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Yr oriau agor**

Llun - Sadwrn	07:30 – 22:00
Dydd Sul	08:30 – 21:00

**Mynediad**

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa.  
Mae dolen glyw y tu mewn.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.7 milltir o gangen Porth Tywyn, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd ar Stryd Stewart wrth ymyl y gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Porth Tywyn a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 25 metr i ffwrdd.

---

**Swyddfa Bost Stryd yr Eglwys**

Stryd yr Eglwys  
Vauxhall  
Llanelli  
SA15 3BD

**Gwasanaethau**

Yn cynnig dewis o wasanaethau, ond ac eithrio dewis eang o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Yr oriau agor**

Llun - Sadwrn	07:00 – 20:00
Dydd Sul	08:00 – 16:00

**Mynediad**

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris isel wrth y fynedfa.  
Mae dolen glyw y tu mewn.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 4 milltir o gangen Porth Tywyn, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae parcio talu a dangos ar gael ym maes parcio Stryd yr Eglwys. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Porth Tywyn a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 250 metr i ffwrdd.

---

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

**Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd<sup>1</sup>/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn).

**[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)**

**[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup>Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir amnewid y gwasanaeth sydd ar gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.